


Pleidleisio: geiriau pwysig i'w gwybod





Dyma ganllaw i rai o'r geiriau sy'n cael eu defnyddio pan rydyn yn siarad am bleidleisio a democratiaeth.




Mae angen i'n lleisiau ni oll gael eu clywed.

Mae hynny'n dda i'n lles ni.



Mae cael ein lleisiau wedi'u clywed hefyd yn helpu ein cymunedau. Mae syniadau gwahanol yn helpu i wneud pethau'n well i bawb.




Fe wnaethoch chi ofyn i 'Your Vote Matters' am fwy o wybodaeth am bleidleisio a democratiaeth.

Blwch pleidleisio



Dyma'r bocs y mae pleidleiswyr yn rhoi'r papur pleidleisio ynddo ar ôl ei llenwi.

Mae'r bocs wedi'i gloi fel nad oes neb yn cael gweld y papurau nes bydd hi'n amser eu cyfrif.



Bwth pleidleisio

Y lle preifat ble'r ydych yn llenwi eich papur pleidleisio er mwyn ichi gael cadw eich pleidlais yn gyfrinach.



Bwrw pleidlais

Llenwi'r papur pleidleisio i ddewis eich ymgeisydd.

Cerdyn Pleidleisio

Os ydych chi'n pleidleisio yn yr orsaf bleidleisio, byddwch yn derbyn cerdyn pleidleisio yn y post.

Mae'n dweud wrthyfych beth i'w wneud ar ddiwrnod pleidleisio.

Poll card / Cerdyn pleidleisio	
Election of the Police and Crime Commissioner for <i>[insert name of police area]</i> police area Etholiad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer ardal heddlu <i>[nodwch enw ardal yr heddlu]</i>	
Date of election <i>[day]</i> <i>[date]</i> <i>[month]</i> <i>[year]</i> Dyddiad yr etholiad <i>[diwrnod]</i> <i>[dyddiad]</i> <i>[mis]</i> <i>[blwyddyn]</i>	
Voting information / Gwybodaeth am bleidleisio	
Polling day Diwrnod pleidleisio	
Voting hours Ortau pleidleisio	
Your polling station will be Eich gorsaf bleidleisio fydd	

Please turn over / Trowch drosodd

Your details / Eich manylion:	
* <i>[Elector's name and qualifying address details here]</i>	
* <i>[Elector's elector a manylion y cyfeiriad cymhwysio yma]</i>	
* <i>Local Returning Officer to omit where poll card sent to an anonymous elector. Poll card to an anonymous elector must be delivered in a sealed envelope</i>	
* <i>Y Stryddog Canlyniadau Lleol i'r heggor os anfonwyd cerdyn pleidleisio at etholwr diene. Mae'n rhaid i gerdyn pleidleisio ar gyfer etholwr diene gael ei ddosbarthu mewn amlen wedi seilo</i>	
Number on register: Rhif ar y gofrestr:	
** <i>[You do not need to take this card with you in order to vote.]</i>	
** <i>[Nid oes angen i chi fynd â'ch cerdyn hwn gyda chi er mwyn pleidleisio.]</i>	
** <i>[You must have this card with you. You cannot vote without it.]</i>	
** <i>[Mae'n rhaid i chi fynd â'ch cerdyn hwn gyda chi. Ni allwch bleidleisio hebdo.]</i>	
** <i>[If anonymous elector omit the words in the first set of brackets, if not omit the words in the second set of brackets.]</i>	
** <i>[Os ydych chi'n ddiene, dylid heggor y geiriau yn y set gyntaf o gronfachau. Fel arall, dylid heggor y geiriau yn yr ail set o gronfachau.]</i>	
<i>[Insert helpline and other details including website]</i> <i>[Ffôn dach fanylion y llinell gymorth a manylion eraill gan gynnwys wefan]</i>	



Y
Comisiwn
Etholiadol
The
Electoral
Commission

Cofrestr etholiadol

Rhestr o bobl sy'n cael pleidleisio mewn etholiad. Caiff y rhestr hon ei chadw gan bob cyngor lleol.

Mae'n rhaid ichi fod ar y rhestr hon i gael pleidleisio mewn etholiadau.

Comisiwn Etholaethol

Y sefydliad annibynnol sy'n gwneud yn siŵr bod etholiadau'n deg.



Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Dyma'r pennaeth etholedig
ar yr heddlu sy'n gwneud yn
siŵr bod yr arian yn cael ei
wario'n iawn.



Democratiaeth

Pan fo gan bawb hawl
pleidleisio mewn etholiad,
fel sy'n digwydd yn y
Deyrnas Unedig.
Y pleidleisiau hyn sy'n
penderfynu pwy fydd yn
rhedeg y llywodraeth neu'r
cyngor.



Diwrnod Pleidleisio


Dyma'r diwrnod pan fydd etholiad yn cael ei gynnal. Mae'n rhaid i bob pleidlais gael ei gwneud neu ei derbyn erbyn y dyddiad hwn.

Etholaeth

Grŵp o bleidleiswyr mewn ardal benodol.


Er enghraifft, mae etholaeth Pontypridd yn cynnwys yr holl bleidleiswyr sy'n byw yno.






Etholiad Cyffredinol

Etholiad pan fo pob
etholaeth yn y wlad yn
pleidleisio dros Aelodau
Seneddol i'w cynrychioli yn
Nhŷ'r Cyffredin yn San
Steffan.



Gorsaf bleidleisio

Dyma lle'r ydych yn mynd i
bleidleisio ar ddiwrnod
etholiad.



Maniffesto

Adroddiad gwleidyddol
arbennig yw maniffesto, sy'n
dweud beth mae pob plaid
wleidyddol yn addo ei
wneud os byddan nhw'n
ennill yr etholiad.



Papur Pleidleisio

Ffurflen gydag enwau'r holl
ymgeiswyr sydd eisiau cael
eu hethol yn eich ardal chi

Pasbort Pleidleisio

Dyma ffurflen y gallwch ei chwblhau a'i dangos i staff yr orsaf bleidleisio.

Gall fod yn haws ac yn fwy preifat na gorfod egluro eich anghenion cefnogaeth o flaen pobl eraill.

My Voting Passport

About me

My name is:

I have a learning disability and/or autism and I need reasonable adjustments to support me to vote in the general election.

Below, please list anything that will help you to vote in a polling station:
(e.g. no waiting in long queues; not going in the polling booth; staying with your support worker; any other disabilities)


My Vote

My Voice



Pleidlais

Math arbennig o benderfyniad yw pleidlais, pan fyddwch yn dewis rhwng dau neu fwy o ymgeiswyr neu ddau neu fwy o bethau.



Pleidlais bost

Dyma ffordd o bleidleisio sy'n golygu llenwi'r papur pleidleisio gartref a'i anfon i mewn i'r cyngor cyn diwrnod yr etholiad.



Pleidlais drwy ddirprwy

Ffordd o bleidleisio pan fo ffrind rydych chi'n eu trystio'n pleidleisio drosoch yn yr orsaf bleidleisio ar ddiwrnod etholiad.



Tystysgrif Awdurdodi


Pleidleisiwr Gallwch wneud
cais am un o'r rhain os nad
oes gennych chi brawf
adnabod ffotograffig addas.



Ymgeisydd

Person sydd eisiau cael ei
ethol i gynrychioli cymuned
leol.

Prawf adnabod (ID) ffotograffig



Rheol newydd ar gyfer
Etholiadau Cyffredinol ac
etholiadau'r Comisiynydd
Heddlu a Throseddu, sy'n
golygu bod angen ichi brofi
pwy ydych chi os byddwch
yn pleidleisio yn yr orsaf
bleidleisio.



Print bras

Gadewch i ni wybod os oes angen gwybodaeth mewn print bras arnoch chi.

Ebost:

comms@innovate-trust.org.uk



Braille

Gadewch i ni wybod os oes angen gwybodaeth mewn Braille arnoch chi.

Ebost:

comms@innovate-trust.org.uk

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y llyfryn hwn neu os hoffech siarad gyda ni am gynnwys y llyfryn hwn:



Ffoniwch ni ar:

02920 382 151



Neu ewch i'n gwefan:

innovate-trust.org.uk

**Innovate
Trust**

Hawdd ei Ddeall